OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2010 Rhif 823 (Cy.86)

# ADDYSG, CYMRU

## Gorchymyn Deddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998 (Diddymu) (Cymru) 2010

| | | |
|---|---|---|
| *Gwnaed* | - - - - | *16 Mawrth 2010* |
| *Yn dod i rym* | - - | *1 Medi 2010* |

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan adran 45D o Ddeddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998(**1**) ac a freiniwyd bellach ynddynt hwy(**2**) yn gwneud y Gorchymyn a ganlyn.

Yn unol â pharagraff 35(3), Tabl 1 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, gosodwyd drafft o'r Gorchymyn hwn gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru ac fe'i cymeradwywyd drwy benderfyniad y Cynulliad.

### Enwi a chychwyn

**1.** Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Deddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998 (Diddymu) (Cymru) 2010 a daw i rym ar 1 Medi 2010.

### Diddymu

**2.** Diddymir adrannau 45AB a 45AC(4) o Ddeddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998(**3**) mewn perthynas â blynyddoedd ariannol sy'n cychwyn ar 1 Ebrill 2011 neu wedi hynny.

*Leighton Andrews*
Y Gweinidog dros Blant, Addysg a Dysgu Gydol Oes, un o Weinidogion Cymru

16 Mawrth 2010

(**1**) 1998 p.31. Mewnosodwyd adran 45D gan baragraff 5 o Atodlen 16 i Ddeddf Addysg 2005 (p.18).
(**2**) Yn rhinwedd paragraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p.32).
(**3**) Mewnosodwyd adrannau 45AB a 45AC(4) gan baragraff 4 o Atodlen 16 i Ddeddf Addysg 2005.

## EXPLANATORY NOTE

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)*

Mae'r Gorchymyn hwn yn diddymu adrannau 45AB a 45AC(4) o Ddeddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998 (Deddf 1998). Mewnosodwyd yr adrannau hynny gan Ddeddf Addysg 2005 ac roeddent yn ailddeddfu'r gofyniad ar awdurdodau lleol yng Nghymru i benderfynu ar eu cyllideb ysgolion yn flynyddol. Penderfynodd Gweinidogion Cymru ddefnyddio'u pwerau o dan adran 45AC o Ddeddf 1998 (fel y'i mewnosodwyd gan Ddeddf Addysg 2005) i'w gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol osod eu cyllideb ysgolion mewn rheoliadau yn hytrach na dibynnu ar adran 45AB o Ddeddf 1998. Fe ddiddymir, felly, y darpariaethau hynny yn Neddf 1998 sy'n cynnwys y gofyniad i osod cyllidebau ysgolion yn flynyddol.